



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Cofnodion heb eu Cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar  
25 Mai 2023 yn 3.7, CQ2 ac yn electronig drwy Microsoft Teams  
Wedi ei ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

<b>Yn Bresennol:</b>		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gweithrediadau
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus)
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdodau Lleol)
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector)
<b>Hefyd yn Bresennol:</b>		
Dominique Bird	(DB)	Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Gwella Ansawdd, yn cynrychioli John Boulton
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu y Bwrdd
Paul Daulton	(PD)	Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Rebecca Masters	(RM)	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus yn cynrychioli Sumina Azam
Leah Morantz	(LM)	Pennaeth Cyfathrebu
Claire Sullivan	(CS)	Cynrychiolydd Staff

Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd Fforwm Partneriaeth y Staff
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd Dros Dro
<b>Ymddiheuriadau:</b>		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro dros Bolisi ac Iechyd Rhyngwladol/Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Angela Jones	(AJJo)	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant

*Dechreuodd y cyfarfod am 10yb*

<b>PHW 2023.05.25/1</b>	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau</b>
<p>Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwylio'r trafodion ar-lein. Nododd mai'r Bwrdd oedd Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol dros: bennu'r cyfeiriad strategol; meithrin a chynnal partneriaethau strategol; pennu'r awydd am risgiau strategol a goruchwylio'r risgiau strategol; craffu ar gyflawni o fewn y flwyddyn yn erbyn cynlluniau; cynnal arferion llywodraethu da a phennu naws a diwylliant y sefydliad.</p> <p>O ran naws a diwylliant, mae'r Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu, ble mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, os nad yw rhywbeth yn cael ei gyflawni fel y dylai, yn ymddiheuro, yn ceisio cywiro'r sefyllfa ac yn gwneud gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Roedd y Bwrdd am i bawb ddod i'r gwaith a bod yn nhw eu hunain, a'r gorau y gallant fod, heb ofni anfantais neu wahaniaethu o unrhyw fath, gan gynnwys unrhyw ymddygiad ffobig. Mae gan y Bwrdd ymagwedd dim goddefgarwch tuag at hyn ac anogodd JW unrhyw un sy'n dioddef gwahaniaethu o'r fath i ddefnyddio'r prosesau sydd ar gael i adrodd yn ei gylch. Gofynnodd hefyd i unrhyw un sy'n gweld/clywed am wahaniaethu o'r fath i hysbysu rhywun yn ei gylch, oherwydd ni ddylai unrhyw un ddioddef anghyfiawnder o unrhyw fath.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn unol ag ymddygiad ffurfiol Bwrdd; mae hyn yn caniatáu i'r holl bapurau gael eu darllen cyn y cyfarfod, gan wneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i drafod ar y diwrnod. Mae'r Bwrdd hefyd yn cadw at Werthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cydweithio gydag Ymddiriedaeth a Pharch i Wneud Gwahaniaeth.</p> <p>Crynhodd JW yr Agenda a chroesawodd DB ac RB i'r cyfarfod fel cynrychiolwyr JB ac SA, yn y drefn honno.</p>	

**Nododd** y Bwrdd **ymddiheuriadau** gan: Tracey Cooper; Sumina Azam; John Bolton; Diane Crone; ac Angela Jones.

**PHW 2023.05.25/2****Datgan Buddiannau**

Gofynnodd JW am Ddatganiadau o Fuddiannau ar wahân i'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datgan Buddiannau.

Datganodd CS fuddiant mewn perthynas ag eitem 4.4 ar yr Agenda. Nododd SW nad oedd yn glir ynghylch y sail resymegol dros ddatgan buddiant yn yr un eitem ar yr agenda a'i bod yn gwrthwynebu'r cais iddi adael y cyfarfod ac mae wedi cyflwyno cwyn ar y cyd ynghylch y mater hwn; eglurodd JW fod gan SW fuddiant personol uniongyrchol yn y mater a bod egwyddorion llywodraethu da yn ei hatal rhag cymryd rhan yn y trafodaethau. Cytunodd SW i adael y cyfarfod cyn eitem 4.4. a diolchodd JW i CS a SW yn unol â hynny.

**PHW 2023.05.25/3****Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd****PHW 2023.05.25/3.1****Adroddiad y Prif Weithredwr**

Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, nododd HG fod hyd a lled y pwnc yn cynnwys:

- Ailgyflwyno Adroddiadau'r Cyfarwyddiaethau; bu'r rhain yn nodwedd o adroddiadau'r Bwrdd cyn COVID-19 ac roedd eu cyflwyno yn rhoi manylion ychwanegol i'r Bwrdd i ategu'r pynciau yn yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad; gwahoddodd HG adborth ar y cynnwys, i hwyluso'r gwaith mireinio parhaus.

**Camau Gweithredu: Pawb**

- Ymgynghoriad Cyhoeddus COVID-19 y DU*: y swm cynyddol o waith sy'n cael ei gynhyrchu yn y cyfnod sy'n arwain at y gwrandawiadau ffurfiol. Nododd HG y strwythur sydd ar waith i alluogi'r sefydliad i ymateb yn effeithiol i geisiadau am wybodaeth a'r adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn.
- Y Gynhadledd Rhwydweithiau a gynhaliwyd ar 17 Mai ar gyfer y saith Rhwydwaith Staff a lefel y diddordeb a ddeilliodd o'r digwyddiad hwnnw; rhoddodd HG wahoddiad i NL ddarparu rhagor o fanylion a phwysleisiodd y manteision i'r sefydliad yn sgil rhannu gwybodaeth ar draws yr holl Rwydweithiau; nododd NL y brwdfrydedd a'r egni yn yr ystafell gydol y dydd, ynghyd â'r trafodaethau cyfoethog ar draws yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Cyfarfod ar 18 Mai gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; roedd y drafodaeth wedi cynnwys cyflwyniad ar waith 'craffu manwl' ar

ddiabetes yng Nghymru, yr oedd y Bwrdd yn gyfarwydd ag ef. Ychwanegodd JW ac IB fanylion am y gwaith a ddeilliodd o'r cyfarfod.

- Cyhoeddi Strategaeth Hirdymor 2023-35 ddiwedd mis Mai; amlinellodd HG y trefniadau sydd ar waith i gyflwyno'r Strategaeth i nifer o randdeiliaid, yn unol ag e-bost i'r Bwrdd ar 24 Mai 2023. Byddai nifer o ddigwyddiadau staff, fideo i gyd-fynd â hynny a llythyrau penodol i Weinidogion, swyddogion Llywodraeth Cymru a chyrrff partner allweddol. Diolchodd HG i'r rhai a oedd yn rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer y cyhoeddiad ac ychwanegodd JW werthfawrogiad y Bwrdd.

Diolchodd JW i HG am y diweddariad a gwahoddodd gwestiynau:

Myfyriodd KY ar y galw cynyddol ar staff allweddol yn deillio o *Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU*. Gofynnodd am sicrwydd ynghylch lefel yr adnoddau sydd ar gael i ymateb i'r ceisiadau gan dîm yr Ymchwiliad a'r effaith wirioneddol/bosibl ar y ddarpariaeth graidd. Ychwanegodd HG fanylion at ei sylwadau cynharach ynghylch y camau a gymerwyd hyd yn hyn, strategaeth y gyllideb, a'r gwaith parhaus o fonitro'r effaith. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gymryd rhan lawn yn yr Ymchwiliad, ond roedd angen ymarfer cwmpasu a rheoli llawn er mwyn nodi'r goblygiadau.

Holodd KE am y trefniadau penodol i gefnogi'r staff hynny y galwyd arnynt i roi tystiolaeth. Cadarnhaodd HG y byddai'r tystion yn cael cefnogaeth gan Gwnsler cyfreithiol, a disgrifiodd PV hyn fel 'cefnogaeth gofleidiol'.

Llongyfarchodd JW y rhai a oedd yn rhan o'r gwaith o ddylunio a chynnal y Gynhadledd Rhwydweithiau Staff; roedd pawb a fynychodd y gynhadledd wedi cyfrannu'n frwdfrydig drwy gydol y dydd, gan arddangos lefelau uchel o greadigrwydd ac ymrwymiad i'r agenda gynhwysiant.

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chafodd sicrwydd** o'r Adroddiad a'r drafodaeth.

**PHW 2023.05.25/3.2**

**Adroddiadau Integredig ar Berfformiad a Chyllid Integredig (Mis 1)**

Wrth gyflwyno'r eitem hon, amlinellodd HG y bwriad i fireinio'r Adroddiadau yn ystod y flwyddyn, i ddyrchafu holl elfennau rôl lywodraethu'r Bwrdd ac i ddarparu dangosfyrddau penodol i gefnogi rôl a gwaith Pwyllgorau'r Bwrdd; byddai'r newidiadau hyn yn digwydd o Chwarter 2 ymlaen a byddant yn seiliedig ar y deunydd sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd yn y Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd. Byddant yn cynorthwyo'r Bwrdd a'i Bwyllgorau i ehangu'r swyddogaethau sicrwydd a chraffu.

Yna gwahoddodd HG bob arweinydd gweithredol i amlygu unrhyw faterion sy'n peri pryder neu faterion o ddiddordeb:

O ran materion sy'n ymwneud â'r gweithlu, tynnodd NL sylw at y canlynol:

- Y gostyngiad yn y lefelau absenoldeb salwch o 3.89% i 3.34% dros y cyfnod adrodd diweddaraf, gyda'r ffigur 12 mis treigl yn 4.44%.
- Mae cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant statudol a gorfodol ychydig dros 90%.
- Roedd y gydymffurfiaeth ag arfarnu yn 70% ym mis Ebrill 2023, ac nid oedd wedi newid ers y mis blaenorol.
- Yr archwiliad i achosion o dorri Safon y Gymraeg rhif 39; nododd NL fod y rhain yn ymwneud a deunydd ar y wefan a bod y tîm yn paratoi cynllun i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.
- Nododd KY nad oedd pwysau a gorbryder yn ymddangos yn y deg rheswm uchaf dros absenoldeb salwch bellach; gofynnodd am fanylion ynghylch unrhyw dystiolaeth sydd ar gael ar y berthynas rhwng llwyth gwaith a phwysau. Nododd NL effaith fuddiol 'Gweithio yn y Ffordd Sy'n Gweithio Orau' a'r gwaith parhaus i adeiladu ar y canlyniadau cadarnhaol a gafwyd hyd yn hyn. Hysbysodd NL y cyfarfod y byddai'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn parhau i edrych ar ffyrdd i wella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Holodd SW am y gwaith monitro ac adrodd ar lefel y Bwrdd ar gyfer y gweithdrefnau disgyblu a chwyno. Cadarnhaodd NL fod gan y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl eitem sefydlog ar y gweithdrefnau hyn a nododd HG fod yr adroddiadau'n canolbwyntio ar themâu, gan nad oedd adrodd yn erbyn achosion unigol yn briodol. Gofynnodd JW i MM ac NL wneud gwaith pellach ar hyn gyda SW y tu allan i'r cyfarfod.

### **Camau Gweithredu: MM/NL/SW**

O ran cyllid, nododd HG:

- Y cynllun cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24, gydag amrywiad bach ym Mis 1.
- Bod ceisiadau wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru am arian adfer sgrinio a chyflwyno gwiriadau iechyd yr ysgyfaint a gwiriadau corfforol babanod newydd-anedig; nid oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n wynebu costau a oedd yn creu risg yn y cyfamser.
- Cyhoeddiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 24 Mai ynghylch Dyfarniad Cyflog y GIG 2023/24; roedd y GIG yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ariannu'r ymrwymiad hwn yn llawn.
- Lefel isel y dyraniad o gyfalaf dewisol; roedd hyn yn her barhaus ac roedd HG yn parhau i godi'r mater gyda Llywodraeth Cymru.

O ran gwasanaethau diogelu a sgrinio iechyd, tynnodd MK sylw at:

- Ddatganiad Sefydliad Iechyd y Byd ar 5 Mai ynghylch diwedd COVID-19 fel Argyfwng Iechyd Cyhoeddus o Bryder Rhyngwladol. Cadarnhaodd fod y niferoedd yng Nghymru yn parhau i ostwng, yn yr un modd â'r niferoedd

mewn ysbytai; roedd y strategaeth brofi ddiwygiedig, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2023, yn parhau i fodoli.

- Yr achosion diweddar o myocarditis sy'n effeithio ar fabanod newydd-anedig yn dilyn haint enterofirws. Nododd MK fod deg achos wedi'u cofnodi yng Nghymru a bod ymchwiliadau'n parhau.
- O ran y gwasanaethau sgrinio, nododd MK:
  - Adferiad llwyr y rhaglen sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol (YAA), gyda'r lefelau sgrinio'n dychwelyd i lefelau'r gweithgaredd a welwyd cyn y pandemig.
  - Y gwaith parhaus o adfer dwy rhaglen: Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) a Bron Brawf Cymru; roedd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi ystyried y materion yn fanwl yn ei gyfarfod diwethaf. Nododd MK fod y prif rwystrau i adferiad llwyr yn cynnwys yr angen am staff sydd wedi'u hyfforddi'n glinigol ar bob cam o'r llwybr, gweithrediad clinigau sy'n ddiogel o ran COVID-19, gyda'r cyfyngiad canlyniadol ar niferoedd, a'r ddibyniaeth ar staff arbenigol. Nododd MK gynnydd da o ran adfer Bron Brawf Cymru yn y Gogledd a'r Gorllewin, gyda De a De-ddwyrain Cymru yn parhau i gyflwyno'r her fwyaf. Roedd y rhaglen DESW yn symud i'r cyfnod cyflawni, gyda'r mynediad i leoliadau yn parhau i gyflwyno'r cyfyngiad mwyaf. Roedd comisiynu Tŷ Kimberley, Llanisien, a agorodd yn ddiweddar, yn lleoliad ychwanegol a oedd i'w groesawu.

Nododd JW fod Adroddiad y Prif Weithredwr wedi cyfeirio at Llais, y Corff Llais Dinasyddion newydd; roedd y Tîm Sgrinio wedi ymgysylltu â Llais ynghylch y ffordd orau o weithredu'r newid arfaethedig i'r cyfnod sgrinio i bobl y mae risg isel iddynt ddioddef o retinopathi diabetig, o 1 flwyddyn i ddwy flynedd.

Cyfeiriodd SG at yr angen i ddatblygu opsiynau recriwtio amgen hirdymor ar gyfer gwasanaethau sgrinio; gofynnodd am y gefnogaeth y gallai technolegau newydd ei darparu fel rhan o fodel integredig. Adleisiodd MK yr angen i adlewyrchu'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar gyfer technolegau newydd a'r rhai sy'n datblygu a chyfeiriodd at y gwaith hyd yn hyn ar fuddiannau posibl Deallusrwydd Artiffisial i sgrinio'r fron. Cadarnhaodd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol sy'n cynnwys modelau newydd. Ychwanegodd IB fanylion hefyd ar y gwaith sydd ar y gweill, mewn partneriaeth ag AaGIC, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ar lasbrint Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer GIG Cymru.

Gofynnodd SG hefyd am sgrinio canser yr ysgyfaint a'r dystiolaeth gref ar gyfer sganio CT; gofynnodd am gyflwyno dilyniannu genomau ac amlinellodd MK y syniadau diweddaraf; roedd hyn yn canolbwyntio ar 'brofion genomau' fel atodiad neu ddewis amgen i sganiau CT, ond nid oedd bwriad ar hyn o bryd i gyfnewid sganiau CT am y dull newydd hwn.

Gofynnodd MM a fyddai'r adnoddau ariannol ar eu pen eu hunain yn cyflymu adferiad y rhaglenni sgrinio neu ai capasiti'r gweithlu oedd y prif ffactor sy'n cyfyngu'r cyfraddau. Nododd MK effaith colli'r lleoliadau yn ystod COVID-19, yn enwedig ar gyfer rhaglen DESW, fel y trafodwyd yn gynharach. Byddai newid i gyfnod sgrinio 2 flynedd ar gyfer y rhai y mae risg isel iddynt ddatblygu retinopathi diabetig yn helpu, yn ogystal â'r opsiynau i adolygu'r gweithlu.

Atgoffodd JW y Bwrdd y byddai Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Hydref 2023 yn cynnwys sesiwn frifffio fanwl ar faterion yn ymwneud â'r rhaglenni sgrinio.

O ran imiwneiddio a brechu, cyfeiriodd MK at y metrigau sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad a'r angen i barhau i fod yn wyladwrus wrth weithio i gyflawni tegwch mewn perthynas â brechu. Tynnodd sylw at y cyfraddau brechu ar gyfer plant 0-4; nid oedd y rhain wedi dychwelyd i'r cyfraddau cyn y pandemig eto a byddai'n cymryd 12 mis arall i hynny ddigwydd. Roedd newyddion mwy cadarnhaol mewn perthynas â phlant 5 oed a hŷn.

Yn olaf, amlinellodd MK y dangosyddion perfformiad ar gyfer y gwasanaethau microbioleg a heintiau.

Diolchodd JW i MK ac yna gwahoddodd RBW i roi sylw ar thema tri. Nododd RBW:

- fod 119 o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd ym mis Ebrill; roedd hyn yn cynrychioli gostyngiad bach ers y misoedd blaenorol. O blith y 119 o'r digwyddiadau hyn, nid oedd 36 yn ymwneud yn uniongyrchol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac roedd 6 digwyddiad yn ymwneud â diogelu, gyda goblygiadau ledled y system. Roedd y tîm diogelu wedi tynnu sylw'r Byrddau Iechyd perthnasol at y digwyddiadau.
- Roedd un digwyddiad y gellir ei adrodd yn genedlaethol yn ymwneud â'r ystod oedran ar gyfer sgrinio'r coluddyn ac roedd yn cynnwys 643 o gyfranogwyr sgrinio; roedd ymchwiliad ar y gweill i hysbysu unrhyw ofynion dilynol angenrheidiol ac a arweiniodd at newid clinigol.
- Roedd y gwaith adrodd bellach yn cynnwys asesiad o'r lefelau o niwed; roedd yn galonogol nodi bod y lefelau yn isel neu ddim yn bodoli.
- Daeth pum cwyn ffurfiol i law, ac roedd ymchwiliadau ar y gweill.
- Nodwyd un achos sgrinio serfigol cynnar a oedd yn destun gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Diolchodd JW i RBW a gofynnodd iddi ddarparu rhagor o wybodaeth am yr unig ddigwyddiad sy'n adroddadwy yn genedlaethol; nododd RBW fod hyn yn ymwneud â'r ffaith nad oedd y system methu'n ddiogel wedi gweithio am gyfnod o chwe mis, heb unrhyw rybudd. Byddai ymchwiliad yn nodi'r rhesymau dros hynny ac yn unioni'r sefyllfa ar gyfer y dyfodol. Cytunodd RBW i roi diweddariad i'r Bwrdd ynghylch canlyniad yr ymchwiliad a'r camau gweithredu y bwriedir eu cymryd.

### **Camau Gweithredu: RBW**

Yn olaf, ymhelaethodd RBW ar y Ddyletswydd Gonestrwydd; cadarnhaodd fod y sefydliad wedi'i baratoi'n dda a bod ganddo brofiad sylweddol i'w roi ar waith o ran Gweithio i Wella. Roedd y gwaith modelu hyd yn hyn yn awgrymu y bydd 50 achos y flwyddyn, sy'n gofyn am tua 200 o oriau.

**Craffodd** y Bwrdd ar y papur, **rhoddodd** adborth a sylwadau, a **chfodd sicrwydd** o'r drafodaeth.

### PHW 2023.05.25/3.3 | Y Trosolwg Iechyd Cyhoeddus Diweddaraf

Gan ddefnyddio sleidiau'r Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym, tynnodd IB sylw at y materion a ganlyn:

- Y data ar nifer y plant sy'n cael eu brechu; cyfeiriodd at y drafodaeth gynharach ar effaith y pandemig COVID-19 ar y cyfraddau brechu ac imiwneiddio a'r amserlen adfer;
- Y gallu ar draws y system i ymateb i'r galw, yn enwedig i'r cleifion hynny sy'n aros am dros 36 wythnos; cyfeiriodd at y gwaith yr oedd y Bwrdd wedi'i ystyried eisoes ar ddiabetes a sut y mae ffactorau risg yn dylanwadu ar y galw; dyma'r achos hefyd ar gyfer clefyd cardiofasgwlaidd, canser, clefydau resbiradol a chlefydau cyhyrsgerbydol, y maent oll yn ychwanegu pwysau cronus ar y system.
- Dylanwad parhaus clefydau, gan gynnwys diabetes, ar farwolaethau ychwanegol.
- Y duedd barhaus o ran llesiant ac ymddygiad iach mewn perthynas â'r defnydd o alcohol a thybaco, yn ogystal â bwyta ffrwythau a llysiau bob dydd.
- O ran penderfynyddion iechyd ehangach, nid oedd y gostyngiad mewn chwyddiant, er ei fod i'w groesawu, yn ymestyn i chwyddiant bwyd; roedd hwn yn parhau i gynyddu, gyda'r canlyniad o effaith niweidiol ar ddewisiadau iach.
- Bu sefyllfa'r farchnad lafur yn gyson, ond nododd y data diweddaraf ostyngiad sydyn o 0.9%; roedd y gyfradd ddiweithdra wedi gostwng yn sylweddol hefyd dros yr un cyfnod. Roedd hwn yn ffenomen ledled y DU, a oedd yn gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd mewn salwch tymor hwy.

Diolchodd JW i IB am y cyflwyniad llawn gwybodaeth a gwahoddodd gwestiynau:

Gofynnodd SG a oedd cysylltiad rhwng amddifadedd a chynnydd mewn marwolaethau, gan nodi'r angen i fonitro effeithiau'r penderfynyddion iechyd ehangach dros amser. Cyfeiriodd IB at y gwaith a wnaed cyn y pandemig ar hyn; byddai ef ac RM yn ailedrych ar hyn ac yn diweddarau'r Bwrdd yn unol â hynny.

**Camau Gweithredu: IB/RM**



Holodd MM am y berthynas rhwng diweithdra a gweithgaredd economaidd; nododd fod chwyddiant bwyd yn debygol o barhau am beth amser, gyda risg y byddai pobl yn dewis bwydydd llai iach, ond rhatach.

O ran diweithdra, nododd NL fod pobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yn fwy tebygol o optio allan o'r farchnad gyflogaeth. Cyfeiriodd IB at golli nifer o bobl yn y grŵp oedran 50-64 o'r farchnad lafur; roedd rhai wedi ymddeol yn ystod y pandemig, ac roedd gan eraill salwch hirdymor a oedd yn eu hatal rhag gweithio.

Gofynnodd NE a oedd unrhyw wybodaeth ragfynegol ar gael, yn enwedig o ran a fu cynnydd yn nifer y staff GIG sy'n holi am eu dewisiadau pensiwn. Cytunodd NL i edrych ar y data sydd ar gael ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl, i gynorthwyo gyda'r gwaith sydd ar y gweill ar gynllunio'r gweithlu.

### Camau Gweithredu: NL

**Nododd** y Bwrdd y diweddariad a **chafodd sicrwydd** o'r wybodaeth a rannwyd a'r trafodaethau.

### PHW 2023.05.25/3.4 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiadau gan Gadeiryddion y Pwyllgorau

Wrth gyflwyno Adroddiad y Pwyllgor Cyfansawdd, cydnabu JW y rhaglen waith sylweddol ar gyfer yr holl Bwyllgorau a diolchodd i bawb sydd ynghlwm wrthi. Gwahoddodd Gadeiryddion y Pwyllgor i nodi unrhyw faterion yr oeddent yn dymuno eu dwyn i sylw'r Bwrdd llawn.

#### Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd

Cyfeiriodd SG at y diweddariad a ddarparwyd yn yr Adroddiad; byddai KRIC yn ystyried y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso nesaf, ochr yn ochr â chyflwyniad asesiadau effaith. Nododd hefyd y gwaith sy'n parhau ar y Strategaeth Ddigidol a Data, ac ar y cysylltiad rhwng cydraddoldeb ac ymchwil.

#### Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl

Tynnodd MM sylw at y camau gweithredu yn sgil cyfarfod diweddaraf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth; rhoddodd sicrwydd i'r Bwrdd fod gwaith y Pwyllgor yn mynd rhagddo yn unol â'r cynllun, gyda'r ffocws presennol ar faterion cyflenwi a galw y gweithlu gan gynnwys y gwaith i ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar bobl i adael ac ymuno â'r sefydliad yn well.

#### Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Clinigol (ACGC)

Nododd NE amrywiaeth y gwaith a amlinellwyd yn yr Adroddiad Cyfansawdd, yn enwedig y gwaith ar faterion sy'n ymwneud â'r archwiliad blynyddol diwedd y flwyddyn. Yn ychwanegol at hynny, cyfeiriodd at y gwaith craffu manwl a wnaed ar atal twyll a chynhyrchu adroddiad blynyddol, a ddatblygwyd gyda chydweithwyr atal twyll.

Cadarnhaodd y byddai'r Pwyllgor yn symud ymlaen i ystyried Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol drafft Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ychwanegodd HG fanylion

am hyn: roedd gwaith ar y gweill i archwilio'r cyfrifon, a Gorffennaf oedd y dyddiad cwblhau o hyd.

Cyfeiriodd NE at yr adroddiadau archwilio mewnol, a chrynhodd y canfyddiadau, sef: sicrwydd rhesymol ar gyfer Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth; sicrwydd sylweddol ar gyfer Seiberddiogelwch ac asesiad cyfyngedig ar gyfer Iechyd y Boblogaeth. Roedd yr asesiad cyfyngedig o Iechyd y Boblogaeth yn ymwneud â'r baich gweinyddol yn sgil grantiau. Cadarnhaodd NE y byddai cyfrifon 2022/23 wedi'u harchwilio yn cael eu cwblhau ym mis Gorffennaf yn unol â'r cynllun.

O ran yr Archwiliad o Seiberddiogelwch, nododd HG fod hyn yn cyfeirio at y ffordd y mae'r sefydliad yn rheoli materion seiberddiogelwch pan fyddant yn codi. Ar gyfer yr Archwiliad o Iechyd y Boblogaeth, roedd y broblem yn canolbwyntio ar fonitro grantiau a arferai gael ei reoli gan Lywodraeth Cymru; byddai grŵp adolygu yn dylunio gweithdrefn briodol.

Gofynnodd MM a yw Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynhyrchu'r Adroddiad Asesu Strwythuredig eto ar gyfer 2022/23, oherwydd roedd am adolygu unrhyw ganfyddiadau'n ymwneud â'r gweithlu. Cytunodd RBW i holi Archwilio Cymru am hyn a dosbarthu'r adroddiad i'r Bwrdd pan fyddai'n dod i law.

### Camau Gweithredu: RBW

#### Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSIC)

Ar ran DC, nododd SG: y gwaith manwl ar ddiogelu gan gynnwys yr adroddiad blynyddol; diweddariad ar y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd; sicrwydd ynghylch gwasanaethau sgrinio; a'r Adroddiad Archwiliad Clinigol. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw bryderon.

**Nododd** y Bwrdd y diweddariadau a ddarparwyd a **chafodd sicrwydd** o'r papurau a thrafodaeth y Bwrdd.

### PHW 2023.05.25/3.5

### Adroddiadau a Chynlluniau Gwaith Blynyddol y Pwyllgorau

Wrth gyflwyno'r eitem hon, hysbysodd PV y Bwrdd fod yr Adroddiadau a'r Cynlluniau Gwaith Blynyddol yn crynhoi materion allweddol gweithgaredd busnes y Pwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2022/23. Fe'u cyflwynwyd i gael sicrwydd bod y Pwyllgorau wedi gweithredu yn unol â'u Cylch Gorchwyl.

Ar ôl gwahodd unrhyw sylwadau pellach gan gadeiryddion y Pwyllgorau, diolchodd JW i aelodau'r Pwyllgorau, y prif swyddogion gweithredol a phawb sy'n ymwneud â gwaith gweinyddol y Pwyllgorau.

Fe wnaeth y Bwrdd:

- **Ystyried** Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau ar gyfer 2022/2023 gan grynhoi meysydd allweddol y gweithgaredd busnes a gynhaliwyd:
  - Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
- Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
- Y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
- Cafodd **sicrwydd** fod y Pwyllgorau yn addas at y diben ac yn gweithredu'n effeithiol o ran cyflawni eu cylch gorchwyl.
- **Nododd** y Pwyllgor y cynlluniau gwaith ar gyfer 2023/24.
- **Nododd** y crynodeb o arolwg y Pwyllgor o Effeithiolrwydd y Pwyllgorau.

**PHW 2023.05.25/4****Eitemau i'w Cymeradwyo****PHW 2023.05.25/4.1****Y Gofrestr Risgiau Strategol**

Wrth gyflwyno'r eitem hon, nododd RBW y drafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2023 a'r gymeradwyaeth ddilynol o'r themâu diwygiedig a'r saith Disgrifydd Risg Strategol; mae'r rhain bellach yn ategu Strategaeth Hirdymor 2023-2035 a Chynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26.

Nododd RBW fod y papur yn cyflwyno'r Gofrestr Risgiau Strategol wedi'i diweddarau'n llawn; yn unol â thrafodaethau'r Bwrdd, roedd hyn yn adlewyrchu ac yn nodi'r risgiau strategol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r system iechyd a gofal ehangach. Mae wedi gosod Iechyd Cyhoeddus Cymru fel arweinydd systemau ac adlewyrchodd yr angen i weithio mewn partneriaethau strategol gydag eraill. Byddai gwaith yn digwydd bellach i alinio disgrifwyr risg strategol a risgiau corfforaethol.

Diolchodd JW i RBW am ei chrynodeb a gwahoddodd gwestiynau:

Croesawodd MM y gwaith o ehangu paramedrau'r risgiau strategol, i adlewyrchu rôl arweinyddiaeth systemau ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru; roedd ganddo ddiddordeb yn y ffyrdd o ddiffinio'r rôl honno, a bod yn glir ynghylch y berchnogaeth o risgiau iechyd ledled y boblogaeth, yn enwedig wrth ystyried cyflawni yn erbyn canlyniadau.

Gofynnodd NE am y broses a roddwyd ar waith i bennu'r sgoriau; gofynnodd hefyd am y diffiniad o risgiau cynhenid, o gofio bod safbwynt ehangach wedi'i fabwysiadu. Cydnabu'r gwaith a wnaed a'r trafodaethau blaenorol ond gadawyd ef â'r argraff y byddai effaith y risg yn cael ei sgorio at i lawr, yn hytrach na'r tebygolrwydd.

Croesawodd KE y Gofrestr Risgiau Strategol wedi'i diweddarau, gan nodi y byddai gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella rôl sicrwydd allweddol mewn perthynas â phump o'r saith risg strategol.

Nododd JW fod y trafodaethau wedi codi rhai materion ynghylch y dull ehangach, y disgrifwyr risg a'r system sgorio. Cyfeiriodd at sylwadau KE ar rôl y Pwyllgorau yn y broses hon a gwahoddodd HG ac RBW i ymateb.

Nododd HG y byddai'r risgiau strategol sydd wedi'u mapio i gyd-fynd â chanlyniadau'r Strategaeth Hirdymor a gwaith pellach yn diffinio rôl ac effaith arfaethedig Iechyd Cyhoeddus Cymru.

O ran y sgorio, nododd RBW fod risgiau cynhenid yn pennu'r hyn a fyddai'n digwydd pe bai dim byd yn cael ei wneud; cydnabu fod y sgorio'n oddrychol, o gofio ei fod yn adlewyrchu dyfarniadau a wnaed ar unrhyw bwynt penodol. Byddai dull gwerthuso systematig yn darparu tystiolaeth i firenio'r broses sgorio.

Nododd IB bwysigrwydd sgorio, o ran yr effaith a'r tebygolrwydd; cydnabu'r gwaith a wnaed ar yr effaith a'r tebygolrwydd, a hwylusodd ddarlun llawnach o sut y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd y boblogaeth.

Mewn ymateb i ymholiad penodol am y sgorio ar gyfer risg strategol 6, nododd MK fod yr asesiad wedi ystyried ffactorau mewnol ac allanol, ac atgoffodd ei gydweithwyr fod y rhaglenni sgrinio yn cynnwys un o nifer o wasanaethau/swyddogaethau a gwmpesir yn y categori risg hwn ac mae'r asesiad ar draws yr holl wasanaethau.

Diolchodd JW i aelodau'r Bwrdd am eu sylwadau, gan nodi y byddai'r gwaith parhaus ar ddiffiniadau ac effaith yn rhoi'r cyfle i'r Pwyllgorau perthnasol lywio'r mesurau monitro a gwerthuso.

Gan **dderbyn** y gwaith parhaus ar ddiffiniadau, egluro rolau, a'r mesurau effaith a gwerthuso, a **chydabod** rôl y Pwyllgorau perthnasol, **cymeradwyodd** y Bwrdd y Gofrestr Risgiau Strategol wedi'i diweddarau.

#### **PHW 2023.05.25/4.2 Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgorau**

Nododd PV y gofyniad i adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau'n flynyddol, yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Nododd papur y Bwrdd y newidiadau allweddol arfaethedig.

Fe wnaeth y Bwrdd:

- **Ystyried** y newidiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y Pwyllgorau;
- **Cymeradwyo** r cylch gorchwyl diwygiedig i'r Bwrdd ei gymeradwyo ar gyfer:
  - Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
  - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
- **Nodi** nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth,
- **Nodi**, yn dilyn arolwg, nad oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Trefniadau Cylch Gorchwyl a Gweithredu Safonol.

#### **PHW 2023.05.25/4.3 Cofnodion o Gyfarfod y Bwrdd a Gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2023 a Chofnod o'r Camau Gweithredu**

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y Cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

O ran y Cofnod o'r Camau Gweithredu, nododd PV fod un cam gweithredu yn parhau i fod yn agored i'w gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2023. Yna **cymeradwyodd** y Bwrdd y Cofnod o'r Camau Gweithredu.

#### **PHW 2023.05.25/4.4 | Gweithio mewn Partneriaeth ar Lefel y Bwrdd**

Yn unol â'r Datganiadau o Fuddiant a wnaed yn gynharach yn y cyfarfod, gofynnodd JW i SW a CS adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

Crynhodd NL y newidiadau arfaethedig i'r ffordd y mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau'n gweithio gyda chynrychiolwyr Undebau Llafur. Atgoffodd y Bwrdd o'r ystyriaeth gychwynnol o'r mater hwn yng nghyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2022, a'r penderfyniad dilynol i'w oedi, mewn ymateb i gyd-gwyn gyflogaeth a gyflwynwyd gan Unite the Union ar 27 Gorffennaf 2022.

Disgrifiodd NL yr ymchwiliad a gynhaliwyd i'r gyd-gwyn gyflogaeth, drwy arolwg annibynnol, yn unol â'r polisi Parch a Datrys Anghydfodau; roedd hwn wedi cadarnhau bod cynigion Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y cyfnod hiraf i gynrychiolwyr yr Undeb Llafur fod ar y Bwrdd, yn briodol a'u bod yn parhau i fod yn briodol.

Ar sail canlyniad yr adolygiad annibynnol, ailgyflwynodd NL y papur i'w ystyried a'i gymeradwyo, gyda dyddiad gweithredu o 1 Medi.

Gofynnodd JW i NL amlinellu i'r Bwrdd yr ohebiaeth ychwanegol gan Unite the Union ac SW, a dderbyniwyd cyn dechrau cyfarfod y Bwrdd.

Crynhodd NL ddau ddarn o ohebiaeth gan SW, ac un gan Unite the Union, yn cyfeirio at: y broses hyd yn hyn a'r cyfleoedd i ymgysylltu; y sail resymegol dros adael y cyfarfod; a'r cyfnod hiraf o 8 mlynedd fel aelod o'r Bwrdd. Roedd yr ohebiaeth wedi cynnwys cais am atgyfeiriad i ACAS a chyfeiriwyd at gyd-gwyn gyflogaeth arall o dan y Polisi Parch a Datrys Anghydfodau.

Atgoffodd NL ei gydweithwyr ynghylch y broses a ddilynwyd hyd yn hyn a nododd JW fod y Bwrdd wedi derbyn yr holl ddogfennau perthnasol.  
Fe naeth y Bwrdd:

- **Ystyried** y papur, gan nodi'r gyfatebiaeth â'r ddogfen 'Handbook for Trade Union Representatives at Trust Boards' (2007) Fforwm Partneriaeth Cymru
- **Cymeradwyo'r** argymhellion mewn perthynas â'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gweithio mewn partneriaeth ag Undebau Llafur, gyda chyfeiriad penodol at argymhelliad 1.3 (newid i'r cyfnod ar y Bwrdd).
- **Dirprwyo'r** gwaith o weithredu'r argymhellion i'r Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl ac heb fod yn hwyrach na 1 Medi 2023.

#### **PHW 2023.05.25/5 | Eitemau i'w Nodi**

#### **PHW 2023.05.25/5.1 | Adroddiad Preifat y Cadeirydd (30 Mawrth 2023)**

Darparodd JW nodyn ar y trafodaethau ar lefel y Bwrdd a'r camau a gymerwyd mewn sesiwn breifat o'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023, yn unol â'r Protocol Sesiwn Breifat. Roedd arolwg o'r defnydd o'r Protocol yn 2022/23 ar y gweill, gydag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Protocol yn cael eu cyflwyno i'w hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023.

**PHW 2023.05.25/5.2 | Blaengynllun y Bwrdd**

**Ystyriodd a nododd** y Bwrdd Flaengynllun ar gyfer 2023/24.

**PHW 2023.05.25/6 | Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd**

Roedd cyfarfod nesaf y Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer 27 Gorffennaf 2023

**Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.22pm.

HEB EU CADARNHAU